# Buddion Lles Cymunedol

5ed rhifyn

CYLCHLYTHYR EBRILL - GORFFENNAF 2025

PRYNU'N GYFRIFOL

## Croeso i'r Cylchlythyr Buddion Lles Cymunedol ar gyfer Chwarter 1 Blwyddyn Ariannol 2025/2026

Rydym yn falch iawn o rannu'r newyddion diweddaraf am y gwaith effeithiol y mae Ardal wedi bod yn ei wneud i wella lles cymunedol. Yn y rhifyn hwn, fe welwch ddiweddariadau cynhwysfawr ar ein mentrau sy'n ymwneud â lleihau carbon, brwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern, a'n canllaw newydd ar werthu i'r Cynghorau.

Yn ogystal, rydym yn falch o gyflwyno astudiaethau achos ysbrydoledig sy'n arddangos y manteision lles cymunedol a ddarperir gan ein contractwyr. Mae'r straeon hyn yn tynnu sylw at y newidiadau cadarnhaol a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud yn ein cymunedau, diolch i ymdrechion cydweithredol ein partneriaid.



Rydym yn gobeithio y cewch y cylchlythyr hwn yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth ystyrlon ym mywydau'r rhai rydyn ni'n eu gwasanaethu. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Y RHIFYN HWN: TUDALEN


| Y RHIFYN HWN: | TUDALEN |
|---|---|
| **Diweddariadau Ardal** | **2** |
| - Sesiynau gwybodaeth Buddion Lles Cymunedol | 2 |
| - Gwerthu i'r Cyngor | 2 |
| - Digwyddiad Busnes Cymru | 3 |
| - Carbon | 3 |
| **Prosiectau wedi'u cwblhau:** | **4** |
| - Hale | 5 |
| - Kiingfisher Developments | 6 |
| - Encon | 7 |
| - Morgan Sindall | 8 |
| - Wates | 9-12 |
| - Lovell | 13 |
| - Kier | 14-15 |
| - Willis Construction | 16 |
| - CMB Engineering | 17 |
| Caethwasiaeth fodern | 18 |
| Addewid Caerdydd | 19 |
| Academi Adeiladu Ar y Safle | 20-21 |
| Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd - Travis Perkins | 22 |

# DIWEDDARIADAU ARDAL

## Sesiynau gwybodaeth Buddion Lles Cymunedol







Bob chwarter mae'r tîm BLIC yn cynnal sesiwn wybodaeth. Mae hyn yn cwmpasu'r pwyntiau agenda uchod ac yn tynnu sylw at y gefnogaeth i gontractwyr gyflawni eu hymrwymiadau BLIC yn lleol.

Mae hwn yn fforwm gwych i gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosesau Ardal a chodi cwestiynau ynghylch cymorth cyflawni.

Os ydych chi ar brosiect Ardal ac yn dymuno bod yn rhan o'r digwyddiad nesaf (Hydref 2025) yna anfonwch e-bost at cwb@caerdydd.gov.uk

---

## Sesiynau gwybodaeth Buddion Lles Cymunedol

### Galw ar holl gyflenwyr a chontractwyr Cymru!

Mae Cynghorau Ardal wedi cyhoeddi canllaw newydd defnyddiol i'ch helpu i ddarganfod cyfleoedd ac i wneud cais am waith.
Darllenwch y canllaw yma https://orlo.uk/tr9Xg



# DIWEDDARIADAU ARDAL

## Digwyddiad Busnes Cymru

Mynychodd tîm Ardal ddigwyddiad Busnes Cymru y chwarter hwn i hyrwyddo'r gwasanaeth a'r rhwydwaith. Roedd ein timau Categori wrth law i gefnogi pobl ac egluro'r canllaw Prynu'n Gyfrifol iddynt. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan un o Reolwyr Contract Ardal, Trystan.




# DIWEDDARIADAU ARDAL – CARBON

Mae cynghorau ledled Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd – ac rydyn ni'n sefyll gyda nhw.
O dymheredd uwch i golli bioamrywiaeth, mae'r effeithiau'n real ac yn fater o frys.
Dyna pam rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed amgylcheddol ac arwain trwy esiampl.
Rydyn ni'n ailfeddwl sut rydyn ni'n gweithredu, caffael ac ymgysylltu – gan roi cynaliadwyedd wrth wraidd pob penderfyniad.

ardal
Delivering socially responsible procurement for Cardiff, Monmouthshire, Torfaen and Vale of Glamorgan Councils

https://orlo.uk/nUIXO

## Dilynwch Ardal ar y cyfryngau cymdeithasol

**Gwefan:**

**LinkedIn:**

# PROSIECTAU WEDI'U CWBLHAU:

**Yng nghylchlythyr y chwarter hwn, rydym yn tynnu sylw at brosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fe welwch ddetholiad o drosolygon o brosiectau gan gontractwyr sy'n gweithio ar draws y 4 awdurdod lleol, yn ogystal â mentrau Buddion Lles Cymunedol y maent yn eu darparu yn yr ardal leol.**

# HALE - STRYD BUTE

## Trosolwg o'r prosiect

Disgwylir i'r cynllun ddarparu 45 o fflatiau i'n cleientiaid yng Nghyngor Caerdydd.
Bydd llawer o'r trigolion hyn yn cael eu hadleoli o Dŷ Nelson, sydd gerllaw ar Sgwâr Loudon.
Mae'r cartrefi hyn wedi'u hadeiladu gyda thechnoleg arloesol, fel pympiau gwres o'r ddaear, a fydd yn cadw costau tanwydd i lawr ac yn darparu cartref modern ac effeithlon i breswylwyr.
Mae yna hefyd ofod cymunedol ar lefel y ddaear, a fydd yn cael ei redeg gan Gyngor Caerdydd. Bydd y gofod hwn yn caniatáu i wahanol grwpiau cymunedol rentu'r gofod a defnyddio'r adeilad.

Rydym yn gobeithio y bydd y cyfuniad o gartrefi a gofod cymunedol yn caniatáu i hyn gael ei ymgorffori yn y gymuned ac i fod yn lle balch i bobl fyw ynddo.



**Rhoddion Ariannol Ebrill 24-Ebrill 25**

- NTW74/27: £2,000 tuag at VAWDASV a £3450 ar gyfer gwaith Tanio Cymru gyda phreswylwyr Tŷ Nelson i greu murlun
- NTW73/24: £2,000 tuag at VAWDASV

**Rhoddion amser**

- NTW56/8: 16 awr yn AAS gyda ffug gyfweliadau a chymorth cyflogadwyedd a 12 awr mewn ffeiriau swyddi
- NTW6/11: 16 awr gyda phrosiect Llunio Fy Stryd gydag Ysgol Gynradd Tredegarville, 2 awr gyda 2B Enterprising ac 8 awr yn Ysgol Gynradd Sant Padrig.
- NTW57/12: 6 wythnos o brofiad gwaith wedi'i roi




**Ystadegau cyflogaeth cyffredinol**

- Gweithiodd 17 o brentisiaid newydd ar y safle ym mis Ebrill 24-Ebrill 25
- 3 hyfforddai newydd yn gweithio ar y safle ym mis Ebrill 34-25

## Canlyniadau wedi'u targedu

- Prentis 'Y Prentis' newydd – Sam Coughlin
- Academi Adeiladu Ar y Safle – ffug gyfweliadau a chynnig profiad ar y safle
- Cefnogi Cynhadledd VAWDASV
- Mewnwelediad i adeiladu safle/TANIO Cymru

# CANLYNIAD CYFLOGAETH DRWY BROSIECT BUDDION LLES CYMUNEDOL YM MRO MORGANNWG

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Stori Brandon:**
Roedd Brandon yn byw mewn hostel yn 16 oed ac wedi hynny symudodd i mewn gyda'i bartner, ac mae'r ddau wedi bod yn byw gyda'i gilydd ers cwpl o flynyddoedd. Mae'n mwynhau ei amser gyda Kingfisher yn fawr a dywedodd fod y *"tîm yn dda iawn ac mae'n amgylchedd braf i weithio ynddo."*

Dywedodd mai'r rhan orau o'r swydd yw teimlo fel rhan o dîm. Mae ei ddyletswyddau dyddiol yn cynnwys symud deunyddiau, rhoi'r cymysgeddau ymlaen a glanhau'r safle.
Mae Brandon yn gweithio ar Brosiect Ysgol Gynradd Tregatwg ym Mro Morgannwg gyda Kingfisher Developments.

**Dywedodd Uwch Reolwr Safle Kingfisher, Gareth Seabourne:**
"Mae Brandon wedi gwneud llawer o gynnydd dros y 6 mis diwethaf ac mae wedi magu hyder. Rydyn ni wedi ymuno â'n tîm gwaith paratoi'r tir ac mae'n awyddus iawn i ddysgu sgiliau newydd."

**Dywedodd tîm Buddion Lles Cymunedol Ardal:**
"Mae Kingfisher wedi gweithio gyda'r gymuned leol i gyflogi Brandon ac wedi ei gefnogi ar ei daith gyflogaeth. Mae hyn yn dangos gwerth Buddion Lles Cymunedol i bobl leol. Da iawn Kingfisher Developments a Brandon."






KINGFISHER
DEVELOPMENTS
(WALES LTD)

# CYNLLUN BYW YN Y GYMUNED HEOL LECWYDD




## YNGLŶN Â'R PROSIECT...

Bydd y cynllun yn cynnwys 41 o fflatiau, canolfan gymunedol, ardaloedd chwaraeon amlddefnydd, lle i barcio ceir, a gardd gymunedol. Bydd pob eiddo yn cael ei adeiladu yn unol â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru i'w defnyddio fel llety rhent y Cyngor, ac wedi'i gynllunio i safonau Tystysgrif Perfformiad Ynni A.

Mae'r prosiect yn cael ei adeiladu mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, Blake Morgan, Pentan Architects, Grays Consulting a Service Design Solutions.

Mae Encon Construction wedi bod yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau i gyflawni'r Gweithgareddau Buddion Cymunedol. Yn unol â'n llinell amser gwerth cymdeithasol, gweler ar y dde y gwaith ymgysylltu a gyflawnwyd dros gyfnod y contract.















| | | | |
|---|---|---|---|
| **50 awr** o gasglu sbwriel bob mis gyda Cadwch Gymru'n Daclus i ddiogelu bywyd gwyllt brodorol | **96 awr** o wirfoddoli i gefnogi Bike the UK for MS | **60 awr** yn cefnogi prosiectau cymunedol lleol a diwrnodau 'Give & Gain' | **135 awr** o hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i staff a'n cadwyn gyflenwi |
| **2,700 milltir** wedi'u harbed drwy weithredu Cynllun Teithio Gwyrdd | **Datblygu Rhaglen Gyrfaoedd a Chyflogaeth i Oedolion Ifanc** | Recriwtio preswylydd NEET lleol trwy raglen **Build Back** Encon | **125 awr** o ymgysylltu ag ysgolion a cholegau lleol |
| Talu am ddiffibriliwr a'i osod ar ochr yr adeilad i'w gael ei ddefnyddio gan y gymuned ehangach | **139 o goed** wedi'u plannu yng nghoedwigoedd Cymru drwy Gynllun Ôl Troed Carbon | **12 wythnos** o brofiad gwaith gwirfoddol i ysgolion a cholegau lleol | **60 awr** yn cefnogi pobl ifanc leol i ddod o hyd i waith drwy sesiynau blasu Coleg Caerdydd a'r Fro |
| **670 awr** yn cefnogi pobl ddi-waith drwy fentora gyrfaoedd | Rhoddion i MS Society Caerdydd / Clwb Rygbi Treganna / Canolfan Actio Ieuenctid Trelái / Clwb Pêl-droed Ely Rangers | 1,589 o wythnosau o hyfforddiant i brentisiaid NVQ, HNC a HND | Clwb Lles i ddarparu bwyd poeth a gweithdai cyngor i bobl leol |

# SAFLE NEWYDD YSGOL UWCHRADD WILLOWS

**Lleoliad y Prosiect:** CF24 Y Sblot, Caerdydd
**Trosolwg o'r Prosiect:** Adeilad newydd a fydd yn gweld yr ysgol bresennol yn cael ei symud er mwyn darparu digon o le i 900 o ddysgwyr rhwng 11 ac 16 oed, yn ogystal â Chanolfan Adnoddau Arbennig â 30 o leoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu cymhleth.
**Statws y Prosiect: Cyfredol** 2024-2026
**Fframwaith:** SEWSCAP 3

















## Uchafbwyntiau cyflawni Buddion Lles Cymunedol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025

- Pobl leol a gyflogwyd ar y contract = 16 o bobl
- Cyfleoedd profiad gwaith i bobl leol = 19 wythnos
- Prentisiaethau = 383 wythnos
- Ymweliadau ag ysgolion lleol = 360 awr
- Arian cymunedol a ddarparwyd = £51k
- Gwirfoddoli Cymunedol = 288 awr

MORGAN SINDALL CONSTRUCTION

# ADRODDIAD EFFAITH PROSIECT BROOKFIELD DRIVE MEDI 2022 - CHWEFROR 2024

Mae datblygiad Brookfield Drive yn rhan o Bartneriaeth Cartrefi Caerdydd, a fydd yn darparu 1,500 o gartrefi ledled Caerdydd erbyn 2027. Trosglwyddodd y prosiect 28 o gartrefi fforddiadwy newydd i Gyngor Caerdydd ym mis Chwefror 2024.

## Prif uchafbwyntiau

### Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

**SGÔR ADEILADWR YSTYRIOL**: 45/45

**FAINT O WASTRAFF ADEILADU SYDD WEDI'I DDARGYFEIRIO O SAFLEOEDD TIRLENWI?**: 100%

#### Gwerth Cymdeithasol Ychwanegol – Defnyddio'r ThCM Porth Gwerth Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Gwerth Cymdeithasol ThCM a gynhyrchir trwy'r prosiect hwn | £2,487,527.00 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol o gyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | £397,322.00 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy wella cyflogadwyedd pobl ifanc ar y prosiect hwn: | £5,192.00 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol ar y prosiect hwn | £2,081,996.00 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn cymunedau iachach, diogel a mwy gwydn ar y prosiect hwn | £3,017.00 |

#### Buddsoddi mewn cyflogaeth a sgiliau

| | |
|---|---|
| Gwerth Buddsoddi Wates mewn Cyflogaeth a Sgiliau | £207,790.00 |
| Mae pobl wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn (Cyfanswm) | 47 |
| Mae pobl leol wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 38 |
| Pobl a gyflogir ar y prosiect hwn (gan gynnwys prentisiaid) | 22 |
| Prentisiaid a gyflogwyd ar y prosiect hwn | 13 |
| Menywod a gyflogir ar y prosiect hwn | 1 |
| BAME a gyflogir ar y prosiect hwn | 3 |
| Pobl bellaf o'r gweithlu a gefnogir ar y prosiect hwn | 4 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth a grëwyd (Cyfanswm) | 950 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth lleol a grëwyd ar y prosiect hwn | 799 |
| Wythnosau hyfforddi achrededig a grëwyd ar y prosiect hwn | 11 |
| Nifer y cyrsiau hyfforddiant byr heb eu hachredu a gynhaliwyd ar y prosiect hwn | 13 |
| Oriau a fuddsoddwyd mewn cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 3,778 |




#### BUDDSODDI MEWN CYFLOGADWYEDD POBL IFANC

| | |
|---|---|
| Gwerth yr amser a fuddsoddwyd gan staff Wates i wella cyflogadwyedd pobl ifanc | £6,703.00 |
| Myfyrwyr wedi'u cefnogi trwy ein rhaglenni a gweithgareddau addysgol fel rhan o'r prosiect hwn | 1,499 o fyfyrwyr |
| Oriau wedi'u buddsoddi gan Wates a staff partneriaid i gefnogi pobl ifanc | 105 awr |

#### BUDDSODDI MEWN TWF A BUSNES RHANBARTHOL CYFRIFOL

| | |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiad Wates mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol | £3,530,571.00 |
| Wedi cael ei wario gyda busnesau BBaCh ar y prosiect hwn | £3,498,774.00 |
| Wedi cael ei fuddsoddi mewn Mentrau Cymdeithasol ar y prosiect hwn | £25,798.00 |
| Budd economaidd wedi cael ei gynhyrchu i'r gymuned leol o ganlyniad i'r gwariant hwn | £2,769,218.00 |

Wates

# ADRODDIAD EFFAITH PROSIECT EAGLESWELL MAI 2023 - TACHWEDD 2024

Mae Wates wedi partneru â Chyngor Bro Morgannwg i adeiladu 90 o gartrefi modiwlar newydd ar hen safle Ysgol Gynradd Eagleswell yn Llanilltud Fawr. Nod y prosiect hwn yw mynd i'r afael â'r argyfwng tai a chefnogi unigolion sy'n profi digartrefedd.

## Prif uchafbwyntiau

**Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol**

SGÔR ADEILADWR YSTYRIOL
45 allan o 45 ac enillydd efydd yng ngwobrau 2024

GWASTRAFF WEDI'I DARGYFEIRIO O SAFLE TIRLAWN
100%

### Gwerth Cymdeithasol Ychwanegol – Defnyddio'r ThCM Porth Gwerth Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Gwerth Cymdeithasol ThCM a gynhyrchir trwy'r prosiect hwn | £1,891,549 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol o gyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | £328,858 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy wella cyflogadwyedd pobl ifanc ar y prosiect hwn: | £6,253 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol ar y prosiect hwn | £1,553,610 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn cymunedau iachach, diogel a mwy gwydn ar y prosiect hwn | £2,828 |

### Buddsoddi mewn cyflogaeth a sgiliau

| | |
|---|---|
| Gwerth Buddsoddi Wates mewn Cyflogaeth a Sgiliau | £119,075 |
| Mae pobl wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn (Cyfanswm) | 22 |
| Mae pobl leol wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 17 |
| Pobl a gyflogir ar y prosiect hwn (gan gynnwys prentisiaid) | 15 |
| Prentisiaid a gyflogwyd ar y prosiect hwn | 6 |
| Menywod a gyflogir ar y prosiect hwn | 0 |
| BAME a gyflogir ar y prosiect hwn | 1 |
| Pobl bellaf o'r gweithlu a gefnogir ar y prosiect hwn | 6 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth a grëwyd (Cyfanswm) | 533 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth lleol a grëwyd ar y prosiect hwn | 355 |
| Wythnosau hyfforddi achrededig a grëwyd ar y prosiect hwn | 1 |
| Nifer y cyrsiau hyfforddiant byr heb eu hachredu a gynhaliwyd ar y prosiect hwn | 1 |
| Oriau a fuddsoddwyd mewn cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 2,165 |

### BUDDSODDI MEWN CYFLOGADWYEDD POBL IFANC

| | |
|---|---|
| Gwerth yr amser a fuddsoddwyd gan staff Wates i wella cyflogadwyedd pobl ifanc | £2,695 |
| Myfyrwyr wedi'u cefnogi trwy ein rhaglenni a gweithgareddau addysgol fel rhan o'r prosiect hwn | 667 o fyfyrwyr |
| Oriau wedi'u buddsoddi gan Wates a staff partneriaid i gefnogi pobl ifanc | 11 awr |

### BUDDSODDI MEWN TWF A BUSNES RHANBARTHOL CYFRIFOL

| | |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiad Wates mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol | £17,927,699 |
| Wedi cael ei wario gyda busnesau BBaCh ar y prosiect hwn | £17,920,912 |
| Wedi cael ei fuddsoddi mewn Mentrau Cymdeithasol ar y prosiect hwn | £6,787 |
| Budd economaidd wedi cael ei gynhyrchu i'r gymuned leol o ganlyniad i'r gwariant hwn | £2,066,304 |



# ADRODDIAD EFFAITH PROSIECT GWAITH NWY GORFFENNAF 2023 - HYDREF 2024

Nod Cartrefi Caerdydd, partneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd a Wates Residential, yw darparu 1,700 o gartrefi ledled Caerdydd. Mae 155 o gartrefi modiwlar newydd wedi'u hadeiladu ar hen safle Gwaith Nwy yn Grangetown, Caerdydd, i gefnogi teuluoedd digartref yng Nghaerdydd.

## Prif uchafbwyntiau

**Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol**

SGÔR ADEILADWR YSTYRIOL: **41 & 44**

GWASTRAFF WEDI'I DARGYFEIRIO O SAFLE TIRLAWN: **98%**

### Gwerth Cymdeithasol Ychwanegol – Defnyddio'r ThCM Porth Gwerth Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Gwerth Cymdeithasol ThCM a gynhyrchir trwy'r prosiect hwn | £3,572,771 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol o gyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | £343,079 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy wella cyflogadwyedd pobl ifanc ar y prosiect hwn: | £10,787 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol ar y prosiect hwn | £3,209,661 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn cymunedau iachach, diogel a mwy gwydn ar y prosiect hwn | £9,244 |

### Buddsoddi mewn cyflogaeth a sgiliau

| | |
|---|---|
| Gwerth Buddsoddi Wates mewn Cyflogaeth a Sgiliau | £121,853 |
| Mae pobl wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn (Cyfanswm) | 35 |
| Mae pobl leol wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 27 |
| Pobl a gyflogir ar y prosiect hwn (gan gynnwys prentisiaid) | 15 |
| Prentisiaid a gyflogwyd ar y prosiect hwn | 6 |
| Menywod a gyflogir ar y prosiect hwn | 1 |
| BAME a gyflogir ar y prosiect hwn | 2 |
| Pobl bellaf o'r gweithlu a gefnogir ar y prosiect hwn | 2 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth a grëwyd (Cyfanswm) | 583 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth lleol a grëwyd ar y prosiect hwn | 369 |
| Wythnosau hyfforddi achrededig a grëwyd ar y prosiect hwn | 4 |
| Nifer y cyrsiau hyfforddiant byr heb eu hachredu a gynhaliwyd ar y prosiect hwn | 6 |
| Oriau a fuddsoddwyd mewn cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 2,216 |

### BUDDSODDI MEWN CYFLOGADWYEDD POBL IFANC

| | |
|---|---|
| Gwerth yr amser a fuddsoddwyd gan staff Wates i wella cyflogadwyedd pobl ifanc | £5,486 |
| Myfyrwyr wedi'u cefnogi trwy ein rhaglenni a gweithgareddau addysgol fel rhan o'r prosiect hwn | 786 o fyfyrwyr |
| Oriau wedi'u buddsoddi gan Wates a staff partneriaid i gefnogi pobl ifanc | 46 awr |

### BUDDSODDI MEWN TWF A BUSNES RHANBARTHOL CYFRIFOL

| | |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiad Wates mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol | £35,823,353 |
| Wedi cael ei wario gyda busnesau BBaCh ar y prosiect hwn | £35,811,346 |
| Wedi cael ei fuddsoddi mewn Mentrau Cymdeithasol ar y prosiect hwn | £12,007 |
| Budd economaidd wedi cael ei gynhyrchu i'r gymuned leol o ganlyniad i'r gwariant hwn | £4,273,756 |






# LLWYN AETHNEN A THŶ ADDISON ADRODDIAD EFFAITH Y PROSIECT HYDREF 2020 - GORFFENNAF 2024

Nod Cartrefi Caerdydd, partneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd a Wates Residential, yw darparu 1,700 o gartrefi ledled Caerdydd. Mae 170 o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu ar hen safle Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn Nhredelerch, Caerdydd, a elwir bellach yn Llwyn Aethnen. Yn ogystal, mae Bloc Byw yn y Gymuned i bobl dros 55 oed, o'r enw Tŷ Addison, yn cynnwys 44 o fflatiau newydd.

## Prif uchafbwyntiau

**Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol**

- SGÔR ADEILADWR YSTYRIOL: 45/45
- SGÔR ADEILADWR YSTYRIOL: Enillydd efydd yng ngwobrau 2024
- GWASTRAFF WEDI'I DDARGYFEIRIO O SAFLEOEDD TIRLENWI: 100%

### Gwerth Cymdeithasol Ychwanegol – Defnyddio'r ThCM Porth Gwerth Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Gwerth Cymdeithasol ThCM a gynhyrchir trwy'r prosiect hwn | £19,560,234 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol o gyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | £1,370,759 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy wella cyflogadwyedd pobl ifanc ar y prosiect hwn: | £95,919 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol ar y prosiect hwn | £18,083,869 |
| ThCM Gwerth Cymdeithasol drwy fuddsoddi mewn cymunedau iachach, diogel a mwy gwydn ar y prosiect hwn | £9,686 |

### Buddsoddi mewn cyflogaeth a sgiliau

| | |
|---|---|
| Gwerth Buddsoddi Wates mewn Cyflogaeth a Sgiliau | £1,614,058 |
| Mae pobl wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn (Cyfanswm) | 261 |
| Mae pobl leol wedi elwa o fentrau cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 220 |
| Pobl a gyflogir ar y prosiect hwn (gan gynnwys prentisiaid) | 77 |
| Prentisiaid a gyflogwyd ar y prosiect hwn | 55 |
| Menywod a gyflogir ar y prosiect hwn | 2 |
| BAME a gyflogir ar y prosiect hwn | 17 |
| Pobl bellaf o'r gweithlu a gefnogir ar y prosiect hwn | 48 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth a grëwyd (Cyfanswm) | 4,226 |
| Wythnosau hyfforddi a chyflogaeth lleol a grëwyd ar y prosiect hwn | 2,888 |
| Wythnosau hyfforddi achrededig a grëwyd ar y prosiect hwn | 150 |
| Nifer y cyrsiau hyfforddiant byr heb eu hachredu a gynhaliwyd ar y prosiect hwn | 84 |
| Oriau a fuddsoddwyd mewn cyflogaeth a sgiliau ar y prosiect hwn | 29,347 |

### BUDDSODDI MEWN CYFLOGADWYEDD POBL IFANC

| | |
|---|---|
| Gwerth yr amser a fuddsoddwyd gan staff Wates i wella cyflogadwyedd pobl ifanc | £41,069 |
| Myfyrwyr wedi'u cefnogi trwy ein rhaglenni a gweithgareddau addysgol fel rhan o'r prosiect hwn | 2549 o fyfyrwyr |
| Oriau wedi'u buddsoddi gan Wates a staff partneriaid i gefnogi pobl ifanc | 377 awr |

### BUDDSODDI MEWN TWF A BUSNES RHANBARTHOL CYFRIFOL

| | |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiad Wates mewn twf a busnes rhanbarthol cyfrifol | £32,482,965 |
| Wedi cael ei wario gyda busnesau BBaCh ar y prosiect hwn | £32,407,383 |
| Wedi cael ei fuddsoddi mewn Mentrau Cymdeithasol ar y prosiect hwn | £67,057 |
| Budd economaidd wedi cael ei gynhyrchu i'r gymuned leol o ganlyniad i'r gwariant hwn | £24,084,119 |



Wates

# LOVELL - LLANEIRWG

## PROSIECT BYW YN Y GYMUNED LLANEIRWG

**Trosolwg o'r prosiect -** Wedi'i leoli ar Heol Crucywel, ar safle'r hen Ganolfan Ieuenctid a Chymunedol, bydd prosiect Byw yn y Gymuned Llaneirwg yn darparu cyfanswm o 60 o fflatiau hunangynhwysol un a dwy ystafell wely ar gyfer rhent cymdeithasol.
Bydd y fflatiau newydd yn cael eu hadeiladu i safonau cynaliadwyedd uchel iawn ac yn cael eu pweru gan baneli solar i helpu i sicrhau bod trydan a gwres yn fforddiadwy i denantiaid. Bydd ystod eang o gyfleusterau cymunedol hefyd yn cael eu cynnig ar y safle, gan gynnwys pwyntiau gwefru sgwteri trydan, storfa feiciau, ystafelloedd gweithgareddau, lolfeydd i breswylwyr, ystafell iechyd a gerddi wedi'u tirlunio, gan alluogi'r adeilad newydd i fod yn hyb o wasanaethau i bobl hŷn yn y gymuned ehangach.

**Dyddiadau -** Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2024 ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn yr haf 2025.

**Pobl leol a gyflogwyd ar y contract** = 2

**Cyfleoedd profiad gwaith i bobl leol** = 10

**Prentisiaethau: Cyfanswm yr wythnosau a ddarparwyd** = 349

**Nifer yr oriau a dreuliwyd yn cefnogi pobl ddi-waith i mewn i waith** = Cyfanswm 64 awr

**Nifer yr wythnosau o leoliadau gwaith/cyrsiau cyn cyflogi ystyrlon** = 10 wythnos

**Nifer yr oriau staff a dreuliwyd yn ymweld ag ysgolion a cholegau lleol** = 20 awr

**Offer neu adnoddau a roddwyd i MGCCh** = £2059




**Nifer yr oriau gwirfoddol a roddwyd i gefnogi MGCCh** = 11.30 awr

**Cyngor busnes arbenigol a ddarparwyd i sefydliadau 3ydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil** = 8 awr

**Rhoddion neu gyfraniadau mewn nwyddau i brosiectau cymunedol lleol** = £16826

**Gwirfoddoli ar gyfer cadwraeth amgylcheddol a rheoli ecosystemau cynaliadwy** = 14 awr

**Mentrau i fynd i'r afael â digartrefedd** = £1133

**Mentrau i ymgysylltu'r gymuned â mentrau iechyd neu les** = 124 awr

**Mesurau arloesol yn ymwneud â "Cymru iachach" a gyflwynwyd ar gontract** = 170 awr

**Mentrau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu** = 2 awr staff

# KIER – YSGOL Y COURT

## YSGOL CYNEFIN (YSGOL Y COURT) Y TYLLGOED A LLANRHYMNI

**Trosolwg o'r prosiect -** Mae cwmni adeiladu Kier yn falch iawn o fod yn adeiladu'r Ysgol Cynefin newydd fel rhan o Gymunedau Dysgu Cynaliadwy band B Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Bydd yr ysgol newydd yn disodli ysgol ADY bresennol y Court yn Llanisien, gan helpu i ateb galw'r ddinas am ddarpariaeth arbenigol i blant oedran cynradd. Wedi'u rhannu rhwng dau safle, bydd dau adeilad newydd Ysgol y Court yng Nghaerdydd yn darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion ledled y ddinas, gan gynyddu nifer y lleoedd o 42 i 72 a darparu cyfleusterau gwell ochr yn ochr ag ysgolion cynradd prif ffrwd.

Mae'r cynlluniau'n rhan o Gymunedau Dysgu Cynaliadwy band B Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn anelu at statws Carbon Sero Net a safon Rhagorol BREEAM tra'n cynnwys fframiau CLT, ffotofoltäig, pympiau gwres ffynhonnell aer a chasglu dŵr glaw.

**Statws y prosiect:** Yn mynd rhagddo, i'w gwblhau ym mis Chwefror 2026

**Fframwaith:** SEWSCAP

**<u>Uchafbwyntiau Buddion Lles Cymunedol:</u>**

**Pobl leol a gyflogwyd ar y contract** = 10

**Cyfleoedd profiad gwaith i bobl leol** = 110 o bobl

**118 wythnos o hyfforddeion ar y prosiect yn cefnogi eu taith gyrfa**

**Prentisiaethau** = 155 wythnos

**Ymweliadau ag ysgolion lleol** = 1206 awr dros 15 ymweliad gan ymgysylltu â dros 1803 o ddisgyblion

**122 awr o 'gefnogaeth i mewn i waith' gan gynnwys mentora, ffug gyfweliadau a chyngor gyrfaol**

**Cronfeydd cymunedol** = £21,425.63

**Gwirfoddoli** = 802 awr

# KIER – YSGOL Y COURT

## Cyflogaeth

Rydym wrth ein bodd o rannu partneriaethau gydag academi Adeiladu Ar y Safle Caerdydd, Elite Supported Employment a Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd. Mae'r tîm wedi cyflogi 6 o bobl yn llwyddiannus drwy'r gwasanaethau hyn, mewn rolau sy'n amrywio o waith llafur, i waith plymwr medrus, i gymorth gweinyddol.

## Addysg

Mae'r tîm wedi llwyddo i ddarparu dros 200 o oriau addysg i Ysgol Pen y Bryn, UCD Greenhill, Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Gorllewin Caerdydd, Ysgol Uwchradd Mair Ddihalog, Ysgol Uwchradd y Dwyrain ac ysgol bresennol y Court, gan drafod pynciau amrywiol fel dylunio, ecoleg, strwythurau adeiladau a gyrfaoedd ym maes adeiladu. Mae'r tîm hefyd wedi rhoi amser i gefnogi myfyrwyr lleol ym Mhrifysgol Caerdydd drwy eu digwyddiadau 'Hyder o ran Gyrfa' ac wedi cynnal dros 10 wythnos o brofiad gwaith i gefnogi pobl sy'n gadael yr ysgol, myfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro yn ogystal â'r rhai sy'n dechrau eu gyrfaoedd drwy Elite Supported Emloyment, sy'n cefnogi oedolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Cymuned

Mae'r prosiect wedi gwella'r ardal leol yn sylweddol trwy roi dros £21k i'r gymuned – o roddion elusennol i gefnogi prosiectau digartrefedd, tywod chwarae ar gyfer ysgolion lleol a cheginau mwd ar gyfer meithrinfeydd lleol, i ailwampio gerddi'n llwyr mewn canolfannau dydd lleol sy'n cefnogi oedolion ag anghenion ychwanegol. Mae'r tîm yn hynod falch o gefnogi achosion lleol gan adael etifeddiaeth gadarnhaol yn yr ardal y mae Kier yn gweithio ynddi.

Mae tîm Kier wedi cefnogi mentrau FareShare lleol yn y Tyllgoed yn rheolaidd gan gyfrannu cyflenwadau ar gyfer diwrnod crempog a'r Pasg, ac yn parhau i'w cefnogi trwy gydol y prosiect. Mae Tîm y Tyllgoed hefyd wedi cynnal gweithdai mewn hostel ieuenctid lleol yn dysgu sgiliau bywyd hanfodol i bobl ifanc fel gwaith trydan, plymio a phaentio syml yn y cartref.

**Os ydych chi'n gweithio ar brosiectau yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy a Thorfaen ac mae angen cymorth arnoch, cysylltwch â ni.**

# WILLIS - TŶ MOUNTON

## TŶ MOUNTON – CREU UNED UCD NEWYDD

**Lleoliad y Prosiect:** Cas-gwent

**Trosolwg o'r prosiect:** Roedd y cynllun yn cynnwys ailfodelu ac ailwampio'r adeilad presennol, a gwaith ar fannau awyr agored. Mae'r cyfleuster newydd yn darparu lleoedd i ddisgyblion a chanolfan i'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion ehangach, sy'n cefnogi plant na allant fynychu'r ysgol am nifer o resymau.

**Statws y Prosiect:** Wedi'i gwblhau

Fel rhan o brosiect UCD Tŷ Mounton, ymgymerodd Willis ag ystod eang o fentrau gwerth cymdeithasol, gan gynnwys gweithdai adeiladu gyda disgyblion yr UCD, prentisiaethau, rhoddion elusennol, a gwirfoddoli. Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys:



**<u>Sgiliau Adeiladu Disgyblion Tŷ Mounton</u>**

Yn dilyn sesiwn ragarweiniol yn eu cyfleuster presennol – a oedd yn cynnwys sgwrs am yrfaoedd a thaith dywys ar y safle – trefnodd Willis gyfres o ymweliadau rhyngweithiol â'r safle i ddisgyblion yr UCD.

- **Sefydlu ar y Safle:** Cwblhaodd y disgyblion sesiwn sefydlu ar y safle gyda Rheolwr y Safle, gan ddysgu am ddiogelwch ar y safle a Chyfarpar Diogelu Personol.
- **Gwaith Saer Ymarferol:** Gyda chaniatâd, cafodd garej segur ei drawsnewid yn weithdy gwaith saer. Gweithiodd y disgyblion gyda seiri Willis i adeiladu meinciau gwaith a blychau plannu i'w defnyddio yn yr ysgol.
- **Gwaith Tîm a Datblygu Sgiliau:** Ar ôl ymarfer cychwynnol a sesiynau cynllunio, adeiladodd y disgyblion eu meinciau gwaith a'u blychau plannu eu hunain.
- **Cymorth Parhaus:** Cefnogodd Willis ddisgyblion i baentio'r blychau plannu ac mae'n parhau i gynnig cyfleoedd ymgysylltu, gan gynnwys mynediad at gardiau CSCS, sesiynau mecanyddol a thrydanol, a chyngor ar yrfaoedd yn y sector adeiladu.



**<u>Banc Bwyd Cas-gwent</u>**

- Gwirfoddolodd Paul Cachia (Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Hyfforddiant) ac Emma Lewis (Rheolwr Datblygu Busnes) ym Manc Bwyd Cas-gwent, gan gynorthwyo gyda danfoniadau bwyd a dysgu am heriau'r sefydliad.
- Pan rannodd y tîm broblem cynnal a chadw ar y safle, trefnodd Willis i seiri coed gynorthwyo gyda gwaith atgyweirio, gan barhau â'u cefnogaeth i ymdrechion cymunedol hanfodol y Banc Bwyd.



**<u>Ymddiriedolaeth Fferm Dean</u>**

- Cyfrannodd Willis £500 i helpu i gadw'r anifeiliaid yn gynnes dros y gaeaf.
- Yn ogystal, gwirfoddolodd tîm o seiri coed ar y fferm, gan adleoli cwt ieir ac adeiladu strwythurau chwarae i'r geifr fel rhan o waith cynnal a chadw a chefnogi parhaus.

**<u>Rhoddion Cymunedol</u>**

- Canolfan Palmer: rhodd o £500 i gefnogi eu Caffi Dementia, rhwydwaith cymorth lleol hanfodol.
- Maethu Cymru: rhodd o £500 i gynorthwyo gyda digwyddiadau, ynghyd ag ymrwymiad i gefnogaeth barhaus drwy Siarter Maethu Cymru.

WILLIS CONSTRUCTION

# CMB - CAMPWS CYMUNEDOL Y TYLLGOED

## CAMPWS CYMUNEDOL Y TYLLGOED

**Lleoliad y prosiect:** Y Tyllgoed

**Trosolwg o'r Prosiect:** Campws Cymunedol y Tyllgoed, prosiect gwerth £110 miliwn sy'n cynnwys 4 adeilad, 3 ysgol. Cyfleuster addysg mwyaf Cymru. Cartref newydd Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Gynradd Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands. Gan gynnwys bloc Iechyd a Lles.

**Statws y Prosiect:** Cyfredol

**Fframwaith:** SEWSCAP

**Pobl leol a gyflogwyd ar y contract** = 44%

**Cyfleoedd profiad gwaith i bobl leol** = 33 awr

**Prentisiaethau** = 11 yn y flwyddyn gyntaf, 12 yn yr ail+ flwyddyn – 21 wythnos yr un (blwyddyn ariannol)

**Ymweliadau ag ysgolion lleol** = 197 awr (blwyddyn ariannol)

**Cyllid cymunedol a ddarparwyd** = £8121 (blwyddyn ariannol)

**Gwirfoddoli cymunedol** = 11.5 awr (blwyddyn ariannol)

**Eraill** = Helpu i sefydlu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ar gyfer Pen y Pîl; helpu i sefydlu menter fan byrgyrs ar Gampws Cymunedol y Tyllgoed. Cefnogi 2 berson i gwblhau eu cymwysterau NVQ, creu 11 swydd i bobl ddi-waith, 2 arall i bobl ddi-waith hirdymor, 1 i gyn-droseddwr, yn ogystal â 4 rôl ar draws y safle.








We were pleased to host Ardal's CWB team for a discussion of our CWB plan



# Diwydrwydd Dyladwy mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenwi yn cyfeirio at y broses o asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â chyrchu, cynhyrchu a dosbarthu nwyddau a gwasanaethau. Mae'n cynnwys ymchwiliad trylwyr a gwaith monitro parhaus i sicrhau bod cyflenwyr a phartneriaid busnes yn cydymffurfio â safonau cyfreithiol, moesegol ac amgylcheddol.

Mae'r cydweithrediad Ardal wedi ymrwymo i'r broses hon ac yn gwahodd person priodol o'n cyflenwyr niferus i gwblhau'r arolwg atodedig (a ddylai gymryd dim ond 30-45 munud), ac rydym yn siŵr y gallai hefyd gynorthwyo sefydliad i nodi bylchau posibl yn eu safonau.

Rydym eisoes wedi cael holiaduron wedi'u cwblhau gan gyflenwyr gan gynnwys Wenick Buildings Ltd, Willis Construction, R & M Williams, Encon Construction, Ian Williams, Willmott Dixon Construction, SWG Construction (Build & Renovate) Ltd, Tilbury Douglas a John Perkins Construction Ltd.

Rydym yma i'ch helpu a'ch cefnogi yn y broses hon, felly mae croeso i chi gysylltu â'n harbenigwyr, y mae eu manylion i'w gweld ar dudalen gyntaf yr arolwg, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch.




Arolwg: https://forms.office.com/e/hqsnfEMvgF



**Os oes angen cymorth arnoch gyda'r uchod, cysylltwch â jeffrey.norman@caerdydd.gov.uk**

# Ymrwymiad Caerdydd

## Llunio Gweithlu Dyfodol Caerdydd — Heddiw

Ymunwch ag Ymrwymiad Caerdydd a chysylltwch eich busnes ag ysgolion a phobl ifanc ledled y ddinas.

## Beth yw Ymrwymiad Caerdydd?

Mae Ymrwymiad Caerdydd yn fenter ledled y ddinas sy'n dod ag ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid cymunedol ynghyd i ysbrydoli a chefnogi plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Ein cenhadaeth yw sicrhau y gall pob person ifanc gael mynediad at gyfleoedd ystyrlon sy'n eu paratoi ar gyfer byd gwaith.

## Pam Cymryd Rhan?

- Gwneud Effaith Go Iawn - Helpu i lunio dyheadau a sgiliau gweithlu Caerdydd yn y dyfodol.
- Adeiladu Eich Piblinell Dalent - Codi ymwybyddiaeth o'ch diwydiant a'r llwybrau gyrfa y mae'n eu cynnig
- Cyflwyno Gwerth Cymdeithasol/CSR - Dangoswch eich ymrwymiad i'r gymuned gan gyflwyno gwerth cymdeithasol neu wirfoddolwch drwy CSR
- Cydweithio ag ysgolion - cyd-ddylunio Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (CWRE) sy'n cyd-fynd â'ch sector.

## Ffyrdd o Ymwneud

- Cefnogi ysgolion gyda phrofiadau gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- Cynnig Profiad Gwaith, mentora neu wirfoddoli mewn ysgolion
- Cefnogi ysgolion gyda phrofiadau gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith Cynnig Profiad Gwaith, mentora neu wirfoddoli mewn ysgolion Ymuno â Fforwm Busnes Ysgol Uwchradd
- Rhannu cyfleoedd Ôl-16 drwy www.whatsnextcardiff.co.uk

## Gadewch i Ni Adeiladu Dyfodol Mwy Disgleirio - Gyda'n Gilydd

Cyswllt: Darren Phillips, Prif Swyddog Datblygu Busnes

cardiffcommitment@cardiff.gov.uk

www.cardiffcommitment.co.uk

www.whatsnextcardiff.co.uk

Funded by UK Government

# ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE (AAS)

**2024-25 Uchafbwyntiau**

**Canlyniadau cyflogaeth - 15**

**Profiadau ar y safle - 19**

**Ymweliadau â'r safle - 47**

**Cymorth gyrfaol - 8 cyflogwr**

gwasanaeth cynghori i mewn i waith
into work advice service

### Astudiaeth Achos: Macauley – O Ymweliad Safle i Lwyddiant Cyflogaeth gyda Hale

Roedd Macauley eisoes wedi cael ei gerdyn CSCS drwy'r rhaglen Adeiladu Amdani, a ddarparwyd mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith+ (CaW+) a CELT+ ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, er ei fod yn meddu ar gerdyn, nid oedd gan Macauley brofiad gwaith ymarferol ar safle – rhywbeth yr oedd yn awyddus i'w gael er mwyn cychwyn ar yrfa gynaliadwy ym maes adeiladu.

Ym mis Mawrth 2025, ymwelodd â safle Hale ym Mhenarth fel rhan o ddigwyddiad a drefnwyd ar y cyd gan yr AAS, Hale, Acorn Recruitment, yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh), a CaW+/CELT+. Dangosodd Macauley ddiddordeb cryf yn y diwydiant ac roedd yn arbennig o frwdfrydig am gymryd rhan mewn profiad gwaith gwirfoddol i ddatblygu ei sgiliau ymarferol a'i hyder ar y safle.

Ar adeg yr ymweliad â'r safle, roedd Macauley yn paratoi ar gyfer genedigaeth ei blentyn a gwnaeth y penderfyniad i ohirio ei brofiad gwaith gwirfoddol tan ar ôl i'w fabi gael ei eni. Unwaith roedd yn barod, trefnwyd wythnos o brofiad gwaith gwirfoddol iddo ym mis Mehefin 2025.

Gwnaeth Macauley argraff ar unwaith yn ystod ei leoliad. Cafodd ei ethos gwaith cryf, ei ddibynadwyedd, a'i awydd i ddysgu eu cydnabod yn gyflym gan y tîm yn Hale. O ganlyniad, cynigiodd Hale swydd iddo ar ddiwedd ei leoliad ac maent wedi ymrwymo i'w gefnogi ymhellach trwy ei helpu i ennill ei drwydded gweithredu craen – gan baratoi'r ffordd ar gyfer mwy fyth o gyfleoedd yn y diwydiant adeiladu.

Mae taith Macauley yn tynnu sylw at bŵer cydweithio ar draws partneriaethau lleol i gael gwared ar rwystrau a chefnogi unigolion i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrlon.

ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE DE-DDWYRAIN CYMRU
ONSITE CONSTRUCTION ACADEMY SOUTH EAST WALES

# ACADEMI ADEILADU AR Y SAFLE (AAS)

Mae Academi Adeiladu ar y Safle (AAS) De-ddwyrain Cymru yn rhaglen hyfforddi, profiad a chyflogaeth ar gyfer gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu. Wedi'i ariannu gan y CITB a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, mae'r AAS yn rhoi cymorth i gontractwyr a cheiswyr gwaith (newydd-ddyfodiaid, dychwelwyr a newidwyr gyrfa) o bob oed ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan baratoi ceiswyr gwaith ar gyfer gwaith yn y sector trwy brofiadau ar safleoedd a hyfforddiant wedi'i ariannu.

Mae ein hymgeiswyr yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys y di-waith, yr economaidd anweithgar, y di-waith hirdymor, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg/cyflogaeth/hyfforddiant, pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, pobl dros 50 oed, cyn-droseddwyr, pobl Ddu a lleiafrifoedd ethnig, a menywod.

Mae gennym brofiad o weithio gyda chwmnïau haen 1, contractwyr, cadwyni cyflenwi ac asiantaethau recriwtio, gan gyflenwi ymgeiswyr dibynadwy ac ymroddedig i helpu i gyflawni targedau Buddion Lles Cymunedol ynghylch cyflogaeth a sgiliau ac rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth i'n hymgeiswyr.



**Os oes angen cymorth arnoch gyda'r uchod, cysylltwch â claire.rowlands-gent@caerdydd.gov.uk**

# GWASANAETH I MEWN I WAITH CAERDYDD – TRAVIS PERKINS

Dros y 18 mis diwethaf, fe wnaeth Tîm Cyswllt Cyflogaeth y Gwasanaeth i Mewn i Waith a Travis Perkins bartneru ar dri phrosiect cyflogaeth i helpu trigolion di-waith yng Nghaerdydd. Darparodd y rhaglen, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2024, Hydref 2024, a Gorffennaf 2025, weithdai ysgrifennu CV, cyfleoedd cysgodi gwaith, ac arweiniad un i un i gyfranogwyr. Nod yr ymdrechion hyn oedd gwella cyflogadwyedd, hyder a rhagolygon gwaith y cyfranogwyr.

## Canlyniadau Allweddol

**Ymgysylltiad Cyffredinol:** O gyfanswm o 51 o atgyfeiriadau, mynychodd 25 o gyfranogwyr y gweithdai ac aeth 24 ymlaen i leoliadau cysgodi gwaith.
**Cyflogaeth a Datblygiad:** Cafodd dau gyfranogwr eu cyflogi mewn swyddi â thâl yn Travis Perkins, ac mae tri o hyd ar leoliadau gwirfoddol. Gadawodd yr holl fynychwyr gyda CVs wedi'u diweddaru, profiad o gyfweliadau, a mwy o hyder.
**Cymorth a Ddarparwyd:** Neilltuodd y Swyddog Cyswllt dros 130 awr i sgrinio, cyflwyno gweithdai, a chymorth parhaus i gyfranogwyr ar draws y tri phrosiect.



## Uchafbwyntiau Sesiwn Gorffennaf 2025

Roedd 12 o gyfranogwyr yn bresennol yn y sesiwn ddiweddaraf, gan ei wneud yn un o'r grwpiau mwyaf ei faint a mwyaf parod. Treuliodd y gweithdy CV dwy awr yn canolbwyntio ar ofynion swyddi Travis Perkins, gyda phawb a fynychodd yn cael cyngor wedi'i deilwra. Yna cynigiwyd lleoliadau cysgodi gwaith i'r cyfranogwyr i gyd, yr oedd disgwyl iddynt barhau i fis Medi 2025.

## Ffactorau Llwyddiant

Cafodd llwyddiant y prosiect ei yrru gan:
Cydweithio cryf rhwng y Tîm i Mewn i Waith a Travis Perkins.
Gwelliannau parhaus i'r rhaglen yn seiliedig ar adborth o sesiynau cynharach.
Mwy o ymgysylltu gan bartneriaid allanol fel yr AGPh a Gyrfa Cymru.
Ymrwymiad ar y cyd i gynhwysiant cymdeithasol a chreu cyfleoedd go iawn.

## Casgliad

Mae'r bartneriaeth hon wedi llwyddo i ddarparu cyfleoedd gwaith uniongyrchol, profiad gwerthfawr yn y byd go iawn, a thwf personol i gyfranogwyr. Mae'r model hwn yn enghraifft dda i fentrau cydweithredol yn y dyfodol rhwng llywodraeth leol a busnesau sy'n gymdeithasol gydwybodol.

gwasanaeth cynghori i mewn i waith
into work advice service